



**Ysgol Bod Alaw, Abergele Road, Colwyn Bay, Conwy, LL29 7ST**  
**01492 530420 | swyddfa@bod.alaw.conwy.sch.uk | www.ysgolbod.alaw.org | @Ysgolbod.alaw**  
**Pennaeth: Mr Dafydd Rhys | Dirprwy Bennaeth: Mrs Elin V Hutchinson / Mrs Sam Kendall**

05/12/2023

Annwyl Deulu,

### **DISGO NADOLIG**

Dim ond nodyn i'ch atgoffa am y 'Disgo Nadolig' heno.

Meithrin ac Uned dan 6 (Derbyn a B11) 5.30 - 6.30yh

Uned dan 9 (B12a3) 6.45 - 7.45yh

Uned dan 12 (B14,5 a 6) 8 - 9yh

Bydd rhaid cael oedolyn gyda plant Meithrin ac U6 os gwelwch yn dda.

Does dim rhaid cael oedolyn gyda plant Uned dan 9 nac Uned dan 12, ond mae croeso i chi aros os ydych eisiau!

Wrth gyrraedd, dewch i brif fynedfa'r ysgol a byddwch yn gadael drwy fynedfa'r Uned dan 6.

Dim ond y plant sydd i fod yma ar yr adegau penodol i gyrraedd bryd hynny os gwelwch yn dda.

Mae'r £2.50 mynediad i'w dalu mewn arian parod wrth i chi gyrraedd ac mae hyn yn cynnwys ymweliad â Sion Corn ac anrheg bach hefyd. Bydd amryw o bethau eraill ar werth yn ystod y noson e.e. diodydd, fferins, melysion a.y.y.b. felly dewch ag arian ychwanegol gyda chi!

### **DIWRNOD SIWMPER NADOLIG**

Hefyd, hoffwn eich hatgoffa am ein 'Diwrnod Siwmpwr Nadolig', ar gyfer elusen 'Save the Children', ddydd Iau yma 7.12.23. Mae croeso i chi ddod a chyfraniad os yn bosib.

### **PANTOMEIM**

Er fod ychydig amser eto cyn i blant Derbyn i F16 fynd i weld Panto 'Jac a'r Goeden Ffa' ym Mhafiliwn Rhyl ar ddydd Mercher 20.12.23, gofynnwn i bawb dalu'r £20 ar ParentPay cyn hynny os gwelwch yn dda. Mae hyn yn cynnwys pris y panto, bws a lolipop i bob plentyn.

Bydd y plant yn cael cinio yn yr ysgol cyn gadael ac rydym yn disgwyl bod yn ôl rhwng 4 – 4.30yp. Gan fod 5 bws, byddant yn cyrraedd nôl gydag ychydig o amser rhwng pob un.

Diolch yn fawr,

Dafydd Rhys a Staff Ysgol Bod Alaw